OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 967 (Cy. 227)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 1.30 p.m. ar 27 Awst 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 4.30 p.m. ar 27 Awst 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *am 4.00 a.m. ar 30 Awst 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 30 Awst 2021.

### Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

**2.** Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149), O.S. 2021/568 (Cy. 156), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/669 (Cy. 170), O.S. 2021/765 (Cy. 187), O.S. 2021/826 (Cy. 193), O.S. 2021/863 (Cy. 202), O.S. 2021/867 (Cy. 203), O.S. 2021/915 (Cy. 208) ac O.S. 2021/926 (Cy. 211).

**Diwygiadau i reoliad 12E**

**3.**—(1) Mae rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2)(e)—

(a) ym mharagraff (i), yn lle "2020" rhodder "2021";

(b) ym mharagraff (ii), yn lle "ysgol fyrddio yng Nghymru y bwriedir darparu addysg a llety ar gyfer P ynddi" rhodder "sefydliad addysgol yng Nghymru y bwriedir darparu addysg a llety ar gyfer P ynddo".

(3) Ym mharagraff (5)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "ystyr "ysgol fyrddio" yw ysgol neu goleg" rhodder "ystyr "sefydliad addysgol" yw ysgol, coleg neu ddarparwr addysg uwch";

(b) ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

"(d) mae i "darparwr addysg uwch" yr ystyr a roddir i "higher education provider" yn adran 83(1) o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017(**3**)."

**Diwygiadau i Atodlen 3**

**4.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"Canada"

"Denmarc"

"Y Ffindir"

"Liechtenstein"

"Lithwania"

"Y Swistir"

"Ynysoedd Açores".

**Diwygiadau i Atodlen 3A**

**5.** Yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"Gwlad Thai"

"Montenegro".

**Diwygiad i Atodlen 4**

**6.** Yn Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig), ar y diwedd mewnosoder—

"Cystadleuaeth y Champions Hockey League

Rowndiau rhagbrofol Cwpan y Byd FIH i Ddynion (grŵp Ewropeaidd)".

(**3**) 2017 p. 29.

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Am 1.30 p.m. ar 27 Awst 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod a bennir yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o berson wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Mae rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn atal personau nad ydynt yn esempt rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau hynny o fewn 10 niwrnod i gyrraedd.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 12E er mwyn caniatáu i fyfyrwyr penodol o dan 18 oed sydd wedi bod yn flaenorol mewn gwlad a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gael mynediad i Gymru. Mae'r personau hynny yn ddarostyngedig i ofynion ynysu penodol.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Canada, Denmarc, y Ffindir, Liechtenstein, Lithwania, y Swistir, ac ynysoedd Açores at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Gwlad Thai a Montenegro at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol.

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn diweddaru'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig. Caiff unigolyn adael ynysiad er mwyn cystadlu neu hyfforddi mewn digwyddiad chwaraeon a bennir yn Atodlen 4, neu er mwyn darparu hyfforddiant neu gymorth arall i berson sy'n cystadlu mewn digwyddiad o'r fath.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.